## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer cymeradwyo darparwyr gofal plant at ddibenion adran 12(5) o Ddeddf Credydau Treth 2002 ("y Ddeddf")(**1**). Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r "awdurdod cenedlaethol priodol" o ran gofal sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru. Mae gofal plant cymwys (fel y'i diffinnir) a ddarperir gan berson a gymeradwyir yn unol â'r Cynllun hwn yn golygu gofal a ddarperir gan berson o ddisgrifiad rhagnodedig at ddibenion adran 12(4) o'r Ddeddf. Mae rheoliadau a wnaed o dan adran 12(1) o'r Ddeddf yn rhagnodi o dan ba amgylchiadau y gall hawl i gael credyd treth gwaith ar gyfer gofal a ddarperir gan berson a gymeradwyir yn unol â'r Cynllun hwn godi. (*Gweler* Rheoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002 (O.S. 2002/2005)(**2**).

Pennir y corff cymeradwyo a enwir yn y Cynllun hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 12(7) o'r Ddeddf (erthygl 3). Mae ceisiadau am gymeradwyaeth yn cael eu penderfynu gan y corff cymeradwyo yn unol â meini prawf a nodir yn y Cynllun hwn (erthygl 7).

Mae'r Cynllun hwn yn darparu ymhellach:

(a) bod y corff cymeradwyo yn gweithredu system ar gyfer penderfynu ceisiadau am gymeradwyaeth (erthygl 8);

(b) bod y corff cymeradwyo'n darparu gwybodaeth i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau ynglŷn â chredyd treth gwaith (erthygl 9);

(c) ar gyfer y cyfnod y bydd cymeradwyaeth yn ddilys (erthygl 10);

(ch) ar gyfer yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cymeradwyaeth neu i'w thynnu'n ôl (erthygl 11);

(d) bod ffioedd yn cael eu codi gan y corff cymeradwyo (erthygl 12);

(dd) ar gyfer y dyddiad cynharaf y gellir rhoi cymeradwyaethau o dan y cynllun (erthygl 13).

Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru'n unig.

(**1**) Deddf Credydau Treth 2002 (p.21).
(**2**) Rheoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002 (O.S. 2002/2005).